

Y cymuned

Ystafelloedd a'r rhent


Mae gyda Lonlas ystafelloedd sydd ar gael i wahanol grwpiau yn y gymuned i rentu. Gan wneud hyn mae'n bosib i'r ysgol codi rhywfaint o arian ychwanegol sydd yna yn y pendraw yn cefnogi dysgu'r plant trwy alluogi i brynu adnoddau, i fynd ar driplau ayyb. Hefyd, mae'n bosib bod yr ymarfer yma yn medru sicrhau datblygiad o berthnasoedd cryfach rhwng yr ysgol a wahanol bobl yn y gymuned.

Mudiad Meithrin

Un o'r asiantaethau sy'n defnyddio'r ystafelloedd yma yw'r mudiad meithrin. Mae'r mudiad meithrin yn gweithio gyda rhieni a phlant oedran cyn- ysgol a meithrin i roi profiadau dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Y tri math o grŵp mae'r mudiad yn cynnal yw:

- Cymraeg for kids (ar gyfer babanod a rhieni)
- Cylch ti a fi (ar gyfer babanod a phlant ifanc a rhieni)
- Cylch meithrin (ar gyfer plant 2 a 3 blwydd oed).

Mae'r cylch meithrin yn llifo'n dda i mewn i brofiadau ysgol gan ganolbwyntio ar addysg yn ogystal i ofal, ac felly gan weithio gyda'r mudiad all yr ysgol cefnogi dysgu'r plant sy'n dueddol i ddod yn rhan o'r ysgol ar ôl y mudiad.



Ymweliadau cyson

Yn ysgol Lonlas mae nysrys, heddwad a'r orsaf tan yn wneud ymweliadau aml i'r ysgol er mwyn trafod materion o iechyd, diogelwch a lles gyda'r plant. O fewn y cwricwlwm newydd mae hyn yn hynod o berthnasol, yn enwedig wrth ystyried y maes dysgu iechyd a lles a'r nod i fagu plant i fod yn hyderus ac yn iachus (Llywodraeth Cymru, 2020). Wnaeth Maslow (1943) pwysleisio pwysigrwydd i blant teimlo'n ddiogel, cael hunan-barch ac i fod yn iachus yn gorfforol (anghenion sylfaenol) er mwyn medru cyfrannu yn llawn i'r dysgu. Ac felly mae defnyddio'r math yma o wasanaethau er mwyn cefnogi'r pynciau yma o fewn yr ysgol yn sicrhau bod pob plentyn yn medru ymarfer ei hawl i fod yn ddiogel, hapus i fwynhau iechyd corfforol a meddyliol ac i gwrdd ar ei lawn botensial (*Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc*, 2011) heb duedd tuag at ei sefyllfaoedd fyw a theuluol.

Dechrau wrth fy nhraed



Ymwelwyr i addysgu sgiliau

Fel rhan o'i gynllun dysgu mae'r ysgol yn gwahodd gwahanol grwpiau i mewn, o'r gymuned er mwyn dysgu sgiliau penodol i'r plant. Enghreifftiau o rain yw'r 'Scouts' oedd yn dod fewn i addysgu amrywiaeth o sgiliau fyw i'r plant a'r clwb tennis oedd yn datblygu sgiliau tennis y plant. Gan drefnu'r cyfleoedd yma mae'n bosib i Lonlas sicrhau bod plant yn medru archwilio pynciau eang ac amrywiol o fewn y meysydd dysgu (er enghraifft sgiliau tennis o fewn y maes dysgu iechyd a lles) ble efallai ni fydd efo staff yr ysgol yr arbenigedd i wneud.

Ymwelwyr i ddatblygu dealltwriaeth

O fewn ysgol Lonlas mae aelodau o'r gymuned yn aml yn cael ei wahodd i mewn i'r ysgol er mwyn rhannu gwybodaeth ac i ddatblygu dealltwriaeth y plant o bynciau penodol. Enghreifftiau o'r ymwelwyr sydd wedi dod mewn yw 'Plantasia' a'r clwb hanes. Mae'r ymweliadau yma o fudd i ddysgu'r plant gan fod yr ymwelwyr yma yn debygol o gael:

- Stori ddiddorol sy'n medru fod yn adnodd defnyddiol ar gyfer dysgu (Kintsch et al., 1979, tud.379, Egan, 1989, tud. 3)
- Arbenigrwydd/ dealltwriaeth gryf all rhannu'r gyda'r plant
- Adnoddau (fel anifeiliaid neu wisg hanesyddol sy'n medru rhoi profiadau dysgu cyffroes, cofiadwy a synhwyraidd sy'n cyfrannu tuag at ddysgu da yn enwedig o fewn y cyfnod Sylfaen (Vickery, 2014, tud.36).

Rhieni

Cefnogi rhieni i hybu gallu ei blant Y aml, yn ysgol Lonlas mae gwahanol weithredoedd yn cael ei wneud er mwyn gwella gallu rhieni i gefnogi ei blant yn academaidd. Mae rhain yn gynnwys nosweithiau arbennig ar gyfer rhieni yn ffocysu a rhannau penodol o ddysgu a'r ffyrdd mae'r ysgol yn dysgu'r sgiliau yma (e.e. Sgiliau rhifedd), gwersi Cymraeg i rhieni ac wythnos 'dewch a rhiant i'r ysgol' sy'n rhoi cyfle i'r rhieni weld y dysgu yn digwydd yn y dosbarth. Er mwyn sicrhau llwyddiant uchel mae'r ymdrechion yma yn hollbwysig. Dangosir astudiaethau gwahanol fod plant yn fwy tebygol o lwyddo yn academaidd pe bau rhieni yn rhyngweithio gyda'i haddysg ac un o'r rhesymau dros hyn yw bod rhieni yn ymgymryd yn weithgareddau dysgu yn y cartref (Ghazvini & Khajehpour, 2011, tud.1204).

Rhannu gwaith yr ysgol gyda rhieni

Yn ysgol Lonlas mae staff yr ysgol yn wneud eithaf tipyn o ymdrech i ddangos i rhieni'r holl waith a gweithredoedd sy'n digwydd o fewn yr ysgol. Rhai o'r ffyrdd mae'r ysgol yn wneud hyn yw trwy:

- Danfon llyfrau adref pob tymor
- Arddangosfeydd gwaith o amgylch yr ysgol
- Ymweliadau i'r ysgol cyn i'r plant dechrau
- Cylchgrawn
- gwefan/ gwefannau cymdeithasol

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Fel rhan o weithdrefnau arferol Ysgol Lonlas mae'r staff yr ysgol yn cydweithio mewn partneriaeth gyda rhieni disgyblion sydd efo anghenion dysgu ychwanegol trwy gynnwys y rhieni wrth osod targedau addas a'i adolygu. Gan wneud hyn mae'n bosib sicrhau bod y rhieni yn ddeall ac yn cytuno efo'r cymorth a thargedau sy'n cael ei roi yn lle a bod y rhieni a staff yn cydweithio ac ar yr un tudalen am anghenion y plant a beth maen nhw'n ei wneud yn yr ysgol/ cartref i helpu. Gall hyn sicrhau cysondeb i'r plentyn a bod y strategaethau gorau ar gyfer y plentyn yn cael ei ddefnyddio.



Llewod Lonlas yw'r gymdeithas rhieni ac athrawon sydd gan yr ysgol ac yn cynnwys rhieni, athrawon a ffrindiau'r ysgol. Mae Llewod Lonlas yn trefnu a chynnal digwyddiadau a gweithgareddau gwahanol er mwyn codi arian sydd yna yn galluogi i'r ysgol fforddio adnoddau a phrofiadau ychwanegol i gefnogi dysgu'r plant. Yn ogystal mae Llewod Lonlas yn anelu i sicrhau cymuned gryf ac agos o fewn yr ysgol, sy'n bwysig iawn i'r ysgol.

Llyfryddiaeth

Egan, Kieran. (1989) 'Memory, Imagination and Memory: Connected by the story' *Phi Delta Kappan*, 70 Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/234763056_Memory_Imagination_and_Learning_Connected_by_the_Story (cyrchwyd: 20 o Ragfyr 2021)

Ghazvini, D. Khajepour, M. (2011) 'The role of parental involvement affect in children's academic performance' *Procedia Social and Behavioral Sciences*, 15, tt. 1204-1208, Ar gael yn: <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S1877042811004423> (cyrchwyd: 27 o Ragfyr 2021)

Kintsch, E. Kintsch, W. Poulsen, D. Premack, D (1979) 'Children's comprehension and memory for stories', *Journal of Experimental Child Psychology*, 28(3), tt.379- 403 Ar gael yn: <https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/0022096579900705> (cyrchwyd: 20 o Ragfyr 2021)

Llywodraeth Cymru (2020) Datblygu gweledigaeth ar gyfer dylunio cwricwlwm Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-dylunio-cwricwlwm/#curriculum-design-and-the-four-purposes> (cyrchwyd: 27 o Ragfyr 2021)

Maslow, A. (1943) 'A Theory of Human Motivation' *Psychological Review*, 50, tt.370- 396 Ar gael yn: <http://www.researchhistory.org/2012/06/16/maslows-hierarchy-of-needs/?print=1> (cyrchwyd: 20 o Ragfyr 2021)

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, c. 8 Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/schedule/enacted/welsh> (cyrchwyd: 20 o Ragfyr 2021)

Mudiad Meithrin, *Cymraeg for Kids* Ar gael yn: <https://meithrin.cymru/cymraeg-for-kids/?lang=en> (cyrchwyd: 27 o Ragfyr 2021)

Mudiad Meithrin, *Cylch Ti a Fi* Ar gael yn: <https://meithrin.cymru/cylch-ti-a-fi/?lang=en> (cyrchwyd: 27 o Ragfyr 2021)

Mudiad Meithrin, *Cylchoedd Meithrin* Ar gael yn: <https://meithrin.cymru/cylchoedd-meithrin/?lang=en> (cyrchwyd: 27 o Ragfyr 2021)

Ysgol Gymraeg gynradd Lonlas, *CHRACH/PTA* Ar gael yn: <https://www.ygglonlas.co.uk/crach-pta/> (cyrchwyd: 27 o Ragfyr 2021)